## Adran 8. Casgliad

**Sut y mae pobl y bydd y cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yn cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Mae'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig hwn wedi bod yn rhan o'i ddatblygiad. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru farn fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus, a chafwyd dros 1,100 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant rasio milgwn, awdurdodau lleol, ac elusennau lles anifeiliaid. Mae eu hadborth a'u profiadau wedi helpu i lunio'r cynnig, gan sicrhau bod yr effeithiau posibl yn cael eu deall a'u datrys. Rydym wedi dod â Grŵp Gweithredu at ei gilydd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r grwpiau hyn, a fydd yn parhau i chwarae rôl allweddol drwy'r cyfnod pontio ac yn sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt fwyaf yn cael eu clywed a'u hystyried ar bob cam.

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos ar gynigion i drwyddedu gweithgareddau, arddangosfeydd a sefydliadau lles anifeiliaid[1] ar 08 Rhagfyr 2023, a daeth i ben ar 01 Mawrth 2024. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar gynigion i gyflwyno rheoliadau trwyddedu i weithgareddau, arddangosfeydd, a sefydliadau anifeiliaid. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiynau ar fod yn berchen ar gŵn rasio, eu hyfforddi a'u cadw, a gofynnwyd am farn a thystiolaeth ynghylch ystyried gwaharddiad graddol.

Roedd y ddau gwestiwn penodol hyn yn ategu ymrwymiad yng Nghynllun Lles Anifeiliaid Cymru i ystyried rasio milgwn ac adroddiad y Pwyllgor Deisebau, *Y Troad Terfynol?*[2], a wnaeth argymhellion i Lywodraeth Cymru ystyried trwyddedu rasio milgwn a chyflwyno gwaharddiad graddol.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiwn ar effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg. Yn ystod y dadansoddiad o'r ymgynghoriad, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i farn pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys plant a'u cynrychiolwyr, siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg arbenigol, a chymunedau eraill yr effeithir arnynt.

Nodir y rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn yr Atodiad i'r crynodeb o ymatebion. Nid ydym yn gallu gweld o hynny a oedd unrhyw grwpiau penodol o bobl wedi ymateb. Fodd bynnag, bydd gan lawer o'r elusennau a'r sefydliadau ymbarél grwpiau penodol, fel plant a phobl ifanc, y byddant yn eu cynrychioli.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Disgwylir i'r gwaharddiad ddarparu sawl budd cadarnhaol. Bydd yn atal rhagor o niwed i filgwn trwy wahardd y weithred o rasio milgwn, gan leihau'r risg o anafiadau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â rasio. Mae'r gwaharddiad hefyd yn cyd-fynd â'r safonau cyfredol ar gyfer lles anifeiliaid ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i arferion cyfrifol a moesegol. Dros amser, gallai'r newid hwn greu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol newydd a chefnogi pobl leol i ddatblygu sgiliau newydd trwy ailhyfforddi a mentrau eraill. Trwy osod disgwyliadau

[1] Trwyddedu gweithgareddau, arddangosfeydd a sefydliadau lles anifeiliaid | LLYW.CYMRU
[2] Y Troad Terfynol?

clir ar gyfer lles anifeiliaid, mae'r gwaharddiad yn cyfrannu at amgylchedd iachach a mwy moesegol i bobl ac anifeiliaid.

Rydym wedi cwblhau cyfres o asesiadau effaith, y mae crynodeb ohonynt wedi'i amlinellu ym Mhennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Mae Pennod 7 a Phennod 8 yn archwilio pob opsiwn, ynghyd ag unrhyw gostau, effeithiau a manteision cysylltiedig.

Mae ein hasesiad o'r effeithiau ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig wedi nodi bod disgwyl i'r Bil effeithio'n gyfartal ar bawb. Ni fydd unrhyw effaith ar y gymuned ehangach yn benodol i unrhyw un person neu grŵp o bobl â nodweddion gwarchodedig, ond i gymdeithas yn ehangach. Yn yr un modd, mae ein hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn awgrymu na fyddai fawr ddim effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Mae'n asesiad o'r effaith ar blant yn awgrymu y gallai fod effaith gadarnhaol ar yr ymddygiadau a'r agweddau hirdymor sydd gan blant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid. Rydym yn cydnabod y bydd y gwaharddiad arfaethedig yn cael effaith ar y gymuned leol a'r economi lle mae'r trac rasio wedi'i leoli, er na wyddwn i ba raddau eto gan mai gwybodaeth gyfyngedig a gyhoeddwyd. Er mwyn sicrhau ein bod yn deall ac yn ymateb i'r effeithiau hyn yn llawn, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Gweithredu. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth, gwrando ar y diwydiant a sefydliadau, a chymryd camau ymarferol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion wrth iddynt godi. Bydd y Grŵp Gweithredu yn darparu cyngor ac arweiniad parhaus, gan ein helpu i nodi heriau yn gyflym a theilwra cymorth i ddiwallu anghenion lleol wrth i ni ddysgu mwy am yr effeithiau gwirioneddol dros amser.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar ystod eang o leisiau, gan gynnwys y rhai o'r diwydiant rasio milgwn, awdurdodau lleol, ac elusennau lles. Trwy ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, rydym wedi gweithio i ddeall effaith y newidiadau hyn ac i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o gefnogi pawb sy'n gysylltiedig. Bydd y Grŵp Gweithredu, sy'n dwyn ynghyd bobl o bob rhan o'r sector, yn chwarae rhan allweddol yn y broses hon. Bydd eu gwaith yn canolbwyntio ar nodi cymorth ymarferol i'r rhai yr effeithir arnynt gan y trawsnewid, fel rhaglenni ailhyfforddi a chymorth cyflogaeth ar gyfer staff a gwirfoddolwyr cymwys. Trwy gymryd y dull hwn, rydym yn gwneud yn siŵr bod anghenion pobl ac anifeiliaid yn cael eu hystyried, a bod y broses o symud i ffwrdd oddi wrth rasio milgwn yn cael ei reoli mor deg a thosturiol â phosibl.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r amcanion llesiant a'r saith nod llesiant drwy roi ar waith y pum ffordd o weithio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cymryd agwedd flaengar trwy atal traciau rasio milgwn newydd

rhag agor a thrwy atal niwed i gwn yn uniongyrchol, gan fynd i'r afael â phryderon lles parhaus fel anafiadau a marwolaethau. Drwy wneud hyn, mae'n helpu i greu Cymru iachach drwy wella lles anifeiliaid, Cymru fwy cyfartal drwy herio sut mae anifeiliaid yn cael eu trin, a Chymru fwy gwydn trwy annog safonau moesegol sy'n cyfateb i werthoedd heddiw.

Mae atal wrth wraidd y cynnig. Drwy wahardd rasio milgwn, mae Llywodraeth Cymru yn atal ecsbloetio milgwn a'r materion lles cysylltiedig sydd wedi eu trafod yn helaeth yn uniongyrchol. Mae'r weithred bendant hon hefyd yn gosod cynsail ar gyfer agwedd gymdeithasol iachach tuag at ddefnyddio anifeiliaid ar gyfer adloniant, gan nodi newid mewn gwerthoedd sy'n blaenoriaethu lles anifeiliaid ac yn annog safonau mwy moesegol. Mae'r Grŵp Gweithredu â'r dasg o fonitro'r trawsnewidiad a nodi unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau bod mesurau ataliol yn parhau i fod yn effeithiol ac yn ymatebol i amgylchiadau sy'n newid.

Cyflawnir integreiddio trwy sicrhau bod y cynnig yn cefnogi nodau llesiant lluosog ar yr un pryd. Nid yw'r penderfyniad i roi terfyn ar rasio milgwn yn cael ei wneud yn gwbl annibynnol; mae'n cael ei lywio gan deimlad cyhoeddus cryf, fel yr adlewyrchir mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, deisebau, a chyfranogiad Aelodau'r Senedd. Mae'r ymatebion hyn yn dangos bod rasio milgwn yn cael ei ystyried yn gynyddol anghydnaws â gwerthoedd a safonau modern ar gyfer lles anifeiliaid. Mae'r Grŵp Gweithredu yn gweithio i sicrhau bod y trawsnewidiad yn cael ei integreiddio ag ymdrechion datblygu cymunedol ehangach, gan gefnogi cyflogadwyedd, cryfhau rhwydweithiau cymdeithasol, a chyfrannu at economïau lleol mwy gwydn.

Mae cydweithredu yn nodwedd ddiffiniol o ddatblygu a gweithredu'r cynnig. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Grŵp Gweithredu, yn gweithio gyda sefydliadau lles, arbenigwyr milfeddygol, cynrychiolwyr y diwydiant, a chymunedau lleol i reoli'r trawsnewidiad. Rôl y Grŵp yw nodi atebion ymarferol a lliniaru effeithiau, gan sicrhau bod lles milgwn sydd ar hyn o bryd yn y diwydiant yn cael ei ddiogelu gan gefnogi'r rheiny y mae eu bywoliaeth yn cael eu heffeithio ar yr un pryd. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a bod atebion yn cael eu cyd-gynhyrchu, gan gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus.

Dangosodd dros 1,100 o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a deiseb gysylltiedig gefnogaeth gref gan y cyhoedd. Mae'r safbwyntiau hyn wedi siapio'r penderfyniad i fynd ar drywydd gwaharddiad yn uniongyrchol, a bydd y Grŵp Gweithredu yn parhau i sicrhau ymgysylltiad ystyrlon trwy gydol y cyfnod pontio. Mae hyn yn cynnwys deialog barhaus gyda rhanddeiliaid, diweddariadau rheolaidd, a chyfleoedd ar gyfer adborth, gan sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn dryloyw ac yn gynhwysol.

Mae potensial gan y cynnig i dynnu sylw at Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, drwy ddangos sut rydym yn mynd i'r afael â materion lles anifeiliaid drwy newid cadarnhaol lle bo angen.

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn rhoi rhagor o fanylion ar y tri opsiwn sydd wedi'u hystyried i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o wahardd rasio milgwn yng Nghymru, ynghyd ag unrhyw gostau, manteision, effeithiau a lliniariadau cysylltiedig.

Rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu, trwy eu rhanddeiliaid, i ddeall effeithiau negyddol yn llawn, a'u osgoi, eu lleihau neu eu lliniaru. Mae hyn yn cynnwys hyblygrwydd ynghylch pryd y daw'r ddeddfwriaeth i rym, a chefnogaeth trwy ymyriadau wedi'u targedu, fel rhaglenni ailhyfforddi a mentrau cymunedol cynhwysol.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phryd y bydd yn dod i ben?**

Amcan y polisi yw gwahardd rasio milgwn yng Nghymru. O’i chymeradwyo, bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu ddim hwyrach na thair blynedd ar ôl iddi ddod i rym. Bydd ei heffaith yn cael ei hystyried, ochr yn ochr ag adborth gan awdurdodau gorfodi a rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai a gynrychiolir gan y Grŵp Gweithredu. Mae Pennod 10 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi rhagor o fanylion ar hyn.